



MOES Y FFLAM


“Moes y fflam **oddi ar yr allor** ennyn **ynom** sanctaidd dân ...”

Yn ein myfyrdod, ystyriwn dân fel symbol o'r Ysbryd Glân, a'i addaswydd fel arwyddlun o'i bresenoldeb a'i weithgarwch. Mae tân yn goleuo, yn gwresogi ac yn dwyn cysur.

'Does dim byd tebyg i danllwyth o dân i ddod â chysur i aelwyd ar noson aeafol. Anaml iawn y cawn ni lond grât o dân heddiw. Mewn Mans y cefais i fy magu a hwnnw'n dŷ mawr heb wres canolog. Yn y gaeaf fe fyddem yn codi yn y bore ac yn methu a gweld allan gan fod Siôn Barrug wedi bod yn brysur yn creu darluniau cywrair ar du mewn y ffenestri. Mynd i'r bathrwm wedyn a chanfod fod y dŵr yn y pibau wedi hen rewi. Mynd lawr llawr a newid ein dillad yn y gegin oherwydd bod dad wedi codi'n gynnar a chreu tanllwyth o dân. Roedd o'n dŷ oer a drafftio.

Lawer gwaith y gwelais i 'nhad yn llunio pregethau yn ei gôt fawr yn y stydi. Ond fin nos, roeddem i gyd o gwmpas tân y gegin, a'r teulu'n gytûn a chyda'i gilydd. Yn ein tŷ ni heddiw, mewn cwpwrdd dillad mae yna ryw fflam fechan guddiedig a di-nod, sy'n medru cynhesu'r tŷ i gyd a rhoi dŵr poeth yn y tapiau. Mae'r gwres canolog a'r teledu a'r cyfrifiaduwr yn fendithion heddiw. Tybed

Pentecost 2017



Pentecost gan El Greco, 1610

“ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle roeddynt yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt, a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân...” (Actau 2; 2 a 3)

nad ydynt fodd bynnag yn difetha undod y teulu ac yn chwalu parch i grefydd a diwylliant? O gwmpas tanllwyth o dân yr oedd tangnefedd a chyd-ddeall yn teyrnasu, a'r teulu yn un ac yn ddedwydd ar aelwyd gynnes.

Yn *Damhegion y Maen Llog* – llyfr gan Pedr Fardd – ceir stori am wraig yn cychwyn i'r farchnad ac yn gadael hanner dwsin o blant yng ngofal y gwas bach. Roedd hi'n aeaf caled, a'r fam yn gwybod yn iawn y byddai'r plant yn siŵr o gael ffeith am fod yn agos at y tân, ac y byddai perygl iddynt losgi. Mae'r fam yn siarsio'r gwas bach: “Gofala di na fydd y plant yma yn mynd yn rhy agos at y tân”. Ar ôl iddi fynd ar ei thaith trwy'r eira a'r rhew, mae'r gwas bach yn mynd i'r cwt glo ac yn llenwi llond berfa ac yn gwneud holwyth o dân – digon i rostio eidion. A wir i chi, 'ddaeth yr un o'r plant yn agos at y tân, dim chwarae'n ddiddig a difyr ym mhen draw'r gegin. Roedd gwres anferth y tân yn llenwi'r ystafell. A dyma neges Pedr Fardd: ond

“Ni thâl rhyw lond dwrn o dân ar aelwyd bywyd y genedl. Gyda rhyw lygedyn o dân fydd yna ddim ond cweryla o hyd. I'r genedl fod yn gytûn a bodlon mae'n rhaid cael coelcerth o dân.”

(parhad ar dudalen 8)

CYDYMDEIMLO Â MANCEINION

Ymateb Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain i'r ymosodiad yn Arena Manceinion wrth inni sefyll gyda'n heglwysi ym Manceinion. Llythyr at Faer Newydd y Ddinas, Andrew Burnham

Annwyl Mr Burnham,
Maer Manceinion Fwyaf,

Yn ein cyfarfod o Henaduriaeth Y Gogledd Ddwyrain o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Wrecsam neithiwr, 24ain Mai, penderfynwyd ein bod yn anfon llythyr o gydymdeimlad a chefnogaeth i chi ar ran ein heglwysi. Rydym yn grwp o 30 o eglwysi Cymraeg eu hiaith, sydd yn cynnwys dwy eglwys yn Altrincham a Manceinion. Yr oedd eu cynrychiolwyr yn bresennol gyda ni.

Mae ein heglwysi ym Manceinion wedi derbyn llawer o negeseuon o gefnogaeth a chydymdeimlad â phobl Manceinion gan gysylltiadau ar draws y byd. Mewn undod,

felly, gyda'n Eglwys Presbyteraidd Cymreig sy'n rhan o grŵp Eglwysi Ynghyd Manceinion, fe fyddem yn dymuno mynegi ein cydymdeimlad gyda'r holl deuluoedd a brofodd golledion mor drasig yn ymosodiad nos Lun yn Arena Manceinion. Fe arweiniwyd ein cyfarfod yn y dydd a'r gynulleidfa yn ein gwasanaeth gyda'r nos mewn gweddi ar amryw adegau gan godi y galarus a'r rhai sy'n dal i fod mewn cyflwr difrifol yn yr ysbyty yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan ddigwyddiadau nos Lun, gerbron gorsedd gras a thrugaredd ein Harglwydd wrth i ni ymbil ar eu rhan.

Rhoesom hefyd ddiolch am yr ymatebion

a gwaith parhaus y gwasanaethau bryd a'r awdurdodau, yn ogystal â'r eglwysi a chymunedau ffydd Manceinion.

Yn ein anerchiad, a roddwyd gan Parch Eric Jones o Fangor, Llywydd Cymdeithasfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y Gogledd, fe gyfeiriodd at genhadaeth yr Eglwys, wrth iddo ddyfynnu Justin Welby, Archesgob Caergaint: i “ysbrydoli maddeuant a dangos cariad” fel y gwnaeth y Canon Andrew White yng nghanol dialedd a thrais beunyddiol Bagdad. Mae'n gweddi yn parhau dros och wrth inni sefyll gydag eglwysi eich dinas i gyhoeddi neges o obaith, maddeuant a chariad; ac â chi, fel y Maer newydd; a chyda phobl Manceinion wrth i chi “Frwydro am Heddwch” (Wage Peace) gyda'ch gilydd.

Gyda phob didwylledd,

Dr Gwyn A. Evans (Llywydd Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain o EBC).

DEWCH I DDATHLU YNG NGHOLEG TREFECA!

Dathliadau Trichanmlwyddiant William Williams Pantycelyn ar 17 o Fehefin 2017

Mae 2017 yn dynodi 300 mlynedd ers geni William Williams, Pantycelyn. Ar hyd a lled y wlad fe fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn i gofio a dathlu bywyd un o emynwyr, beirdd a phregethwyr blaenaf Cymru. Beth am ymuno â ni i'n helpu i ddathlu, dysgu mwy am y dyn ei hun ac i gadw'r gerddoriaeth yn fyw?!



Ganwyd William Williams ar Fferm Cefncoed, Llanfair-ar-y-bryn ger Llanymddyfri ym 1717. Fe'i haddysgwyd yn Academi Llwyn-llwyd ger Y Gelli Gandryll a'i fwrriad gwreiddiol oedd mynd yn feddyg, ond un diwrnod, wrth basio heibio Eglwys Santes Gwenllïan yn Nhalgarth, clywodd Howell Harris yn pregethu yn y fynwent. Cafodd drôedigaeth a daeth i fod yn un o arweinwyr y diwygiad Methodistiaidd ynghyd â Howell Harris a Daniel Rowland. Fel emynydd a bardd dawnus, llwyddodd William i roi llais i'r deffroad newydd a mynegi profiadau ysbrydol y Methodistiaid yng Nghymru. Yn ystod ei fywyd, cyfansoddodd dros 900 o emynau, yn ogystal â chynhyrchu nifer o draethodau diwinyddol a marwnadau. Eleni byddwn yn dathlu bywyd ac etifeddiaeth y dyn rhyfeddol hwn.

Beth fydd yn digwydd?

Mi fydd un o'r dathliadau enwadol yng Ngholeg Trefeca, cartref Howell Harris, gan mai trwy ei bregethu yntau ym Mynwent Talgarth y dewisodd Duw newid bywyd y William Williams ifanc o Bantycelyn. Bydd pabell fawr wedi ei osod ar dir y Coleg. A dyma fydd yn digwydd yn y babbell:

- 10:00 yb ymlaen Cyrraedd a lluniaeth ysgafn
11:00 yb Croeso ac addoliad – Dr John Gwynfor Jones, Caerdydd (Llywydd)
11.15 yb Dr. Eryn M White, Aberystwyth.
'William Williams, Pantycelyn: Llais y Diwygiad'
Cawn glywed am fywyd, emynau a dylanwad William Williams. (yn Saesneg)
Cinio Bwffe (trwy docyn ymlaen llaw yn unig)
2:00 yb **Côr Merched Bro Nest** – dan arweiniad Margaret Daniel
Amser o addoliad a mawl yn canu emynau Pantycelyn, dan lywyddiaeth Dr. Rhidian Griffiths, a fydd yn ychwanegu ei hanesion ei hun yn gefndir i'r emynau. Llundiaeth a diweddu.
4:00 yb

Bydd **Cinio Bwffe** ar gael ar y diwrnod am gost o £6.00 y pen – mi fydd angen i chwi archebu hyn ymlaen llaw. **Cysylltwch â ni i archebu lle os gwelwch yn dda.**

Os byddwch awydd dod draw am y diwrnod mi fydd coffi'r bore a the prynhawn am ddim, ond gofynnwn yn garedig eich bod yn archebu lle yn yr un modd er mwyn i ni fod yn siŵr faint o bobol fydd yn dod ar y diwrnod! Diolch.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu eich tocyn, cysylltwch â: Coleg Trefeca, Aberhonddu, Powys. LD3 0PP neu ffonio 01874 711423, e-bost: colegtrefeca@ebcpcw.org.uk

Corwynt Cariad yn y Parc



Ar fore Sul Mai 7fed bu plant Hwyl y Sul, Parc ger y Bala yn codi arian at Apêl Corwynt Cariad.



Roedd y plant wedi bod yn brysur yn gwneud cardiau cyfarch a chynnyrch i'r ardd. Daeth rhieni a ffrindiau i'r neuadd i brynu'r cardiau, letus, perlysiâu a marmalêd. Cafwyd sgwrs dros banded a gwnaed elw o £75.00.

Eirian Roberts

MOES Y FFLAM (parhad o dudalen 1)

Mae eisïau coelcerth o dân ar aelwyd yr Eglwys hefyd – i doddi'r rhaniadau a'n huno yn wir bobl i Dduw. Felly yr oedd hi yn yr Eglwys Fore. A'r Ysbryd Glân yn creu cymdeithas. Yr Ysbryd Glân yn creu teulu Duw. Mae ambell eglwys yn medru bod yn oer iawn. Ceir stori am Phillip Jones yn pregethu yn rhywle, a Blaenor yn dweud wrtho ei fod yn cael y fraint o bregethu i "Cream y dre."

"Hm," meddai Phillip Jones wrth y gynulleidfa, "Ice Cream!" Oer yw pobman heb gariad, heb Ysbryd Crist, heb wres y Tad.

Ar ôl i ni dderbyn bedydd tân yr Ysbryd Glân ein dyletswydd yw ei gario a'i wasgaru i ddwyn goleuni a gwres a chysur i fywydau eraill. Gwraig nodedig oedd Lowri Wiliam a symudodd o Bandy Chwilog yn Eifionydd i Bandy Dwyrdd ger Trawsfynydd yn 1755. Mae'n debyg fod y teulu, wrth symud, wedi dod a'r tân o'r grât, yn llythrennol felly, mewn berfa efo nhw. Ond fe ddaeth Lowri Wiliam a'r tân dwyfol gyda hi hefyd. Hi oedd mam Eglwysi Methodistiaid Trawsfynydd a Ffestiniog a Maentwrog.

Mae lago yn ei lythyr hyfryd yn dweud fel hyn: "Ystyriwch fel y mae gwreichionen fechan yn gallu rhoi coedwig fawr ar dân." Sôn am y tafod y mae lago, ac am

effeithiau drwg geiriau ffôl a nwydwyllt. Un wreichionen o air annoeth, difeddwl, a dyna hi'n wenfflam mewn ardal, mewn teulu, ac mewn eglwys hefyd weithiau.

Tafodau tân sydd yn yr adnod yn Llyfr yr Actau. Tân dwyfol ydyw hwn – tân sy'n bywhau ac yn bendithio ac yn cysuro. Nid difa perth ein personoliaeth ni y mae'r tân yma, ond goleuo a gwresogi a dwyn cysur. Nerth Duw ni i wasgaru'r tân hwnnw i eraill.

Ifor ap Gwilym (Parch), Abergele

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, 94 Heol Penygarn, Tycroes, Rhydaman SA18 3PF.
e-bost: goleuad@ebcpcw.org.uk
Hysbysebion i Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Lôn Ddewi, Caernarfon, Gwynedd LL55 1ER.
(01286) 672018. e-bost: goleuad@btconnect.com

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.

ISSN 0017-1700

